
*Rhif:* ***10*** *Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd:* **Trwyn Crincoed a Phen-caer**




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020
Sources: Ordnance Survey, Seazone, Pembrokeshire Coast National Park Authority, Natural Resources Wales

**ACM10:Trwyn Crincoed a Phen-caer**



*Pen-caer a'r goleudy mewn gwyntoedd uchel*



*Fferi Iwerddon oddi ar y lan yn teithio at Abergwaun ger Pen-caer*



*Goleudy Pen-caer yn dangos y clogwyni mewn tywydd llonydd*



*Edrych o bwynt ger Llanwnda at Drwyn Crincoed*

| Disgrifiad Cryno |
|---|
| Rhwng Pen-caer a Thrwyn Crincoed, i'r gorllewin o Abergwaun, dyma arfordir garw, agored sy'n wynebu'r gogledd gyda'r dyfroedd agored cysylltiedig. Mae'r clogwyni tua 50m o uchder ar gefndir fertigol o weundir arfordirol, porfa a chyfres o frigiadau folcanig arfordirol, bach. Prin yw'r anheddiad ac mae'r ardal yn teimlo'n anghysbell. Prin y gellir mynd at y traeth ac felly Pen-caer a'i oleudy i'r gorllewin yw'r prif gyrchfan, yn rhannol i wylio dolffiniaid. Defnyddir y môr i ddal pysgod mewn potiau ac mae cwch fferi Abergwaun yn pasio gerllaw. |
| **Nodweddion Allweddol** |
| • Morlin danheddus sy'n wynebu'r gogledd gyda chlogwyni a phentiroedd garw, a chafnau a chilfachau siarp hwnt ac yma. Daw tafodau o graig allan o'r arfordir i'r dwyrain. O gopa'r clogwyn, mae'r tir yn codi'n ysgafn i frigiadau folcanig creigiog sydyn.<br>• Mae gan y môr gymeriad agored iawn, yn enwedig mewn gwyntoedd gogleddol neu ogledd orllewinol, gyda throsgwympiadau o amgylch y pentir, ond mae yna gysgod i'r dwyrain o Drwyn Carregwastad.<br>• Mae gorchudd y tir yn cynnwys gweundir arfordirol a rhedyn gyda phorfa wedi ei chau gan gloddiau a ffiniau cae o waliau cerrig ac ambell goeden. Mae bywyd gwyllt y môr yn cynnwys dolffiniaid a morloi.<br>• Mae yna lawer o olion cynhanesyddol yn yr ardal, gan gynnwys siambrau claddu, meini hirion a systmau cau ac roedd yr ymosodiad (aflwyddiannus) olaf ar Brydain ar Drwyn Carregwastad.<br>• Yn bennaf, mae'r anheddiad yn ffermydd gwasgarog iawn a chartrefi gwyliau, gyda phentrefan mwy o faint yn Llanwnda, y cyfan wedi eu cysylltu gan lonydd troellog, cul.<br>• Mae'r ardal yn teimlo'n anghysbell, yn naturiol ac yn agored ac mae modd gweld golygfeydd eang o'r arfordir a golygfeydd panoramig o'r brigiadau.<br>• Gan nad yw'r traethau'n hygyrch, Pen-caer a'i oleudy i'r gorllewin yw'r prif atyniad i ymwelwyr.<br>• Mae Llwybr yr Arfordir yn ymestyn o amgylch copa'r clogwyn ond yn camu nôl tua'r tir yn Nhrwyn Crincoed.<br>• Defnyddir y môr i ddal pysgod mewn potiau ac mae cwch fferi Abergwaun yn pasio gerllaw. |
| **Nodweddion Ffisegol** |
| Mae'r pentir creigiog, uchel, amlwg wedi'i ffinio gan glogwyni garw, serth sy'n gostwng i lawr at draethau creigiog, agored a thafodau o graig sy'n ymestyn allan o'r arfordir i'r dwyrain. I raddau helaeth, mae'r cyfeiriadedd tua'r gogledd, o bwynt uchel yng Ngharn Gilfach ar 195m UDO, un o gyfres o frigiadau folcanig arfordirol bach, gan ddisgyn tua chopa'r clogwyni tua 50m UDO. Mae cildraethau bach yn torri i mewn i'r graig ar hyd yr arfordir. Yn Aber Felin, mae yna fae sydd wedi'i gysgodi rhag y gwyntoedd gorllewinol gan Drwyn Carregwastad, gyda thraeth caregog bach , anhygyrch. Mae traeth caregog bach arall ym Mae Anglas i'r dwyrain ac yn agos at Ben-caer at Borthsychan i'r gorllewin. Dominyddir y creigwely gan abroau Ordoficaidd gwydn sy'n taro dwyrain-gorllewin i ogledd ddwyrain-de orllewin ymhlith sialau du (Grŵp Folcanig Abergwaun). I'r de o Drwyn Crincoed mae bae Pwll Hir sy'n wynebu'r dwyrain. Mae'r arfordir yn agored i erydiad y gwynt a'r tonnau trwy symudiadau hydrolig a sgrafelliad.<br><br>Mae gwaelod bas (<30m) y môr ar oledd gymedrol i serth oddi ar y lan (1- >10º) o'r clogwyni, ac mae'r oledd yn disgyn i ddyfnderoedd cymedrol (30-60m; <1-10º). Mae craigwely llawr y môr o folcanigau wedi ei orchuddio gan glymfaen sy'n ymestyn allan o'r arfordir. Mae'r moroedd yn agored i bwysau uchel gan y gwynt a'r tonnau. Mae cerhyntau llanwol gogledd-ddwyrain a de-orllewin ar hyd Bae Ceredigion yn troi yn rhai dwyreiniol a gorllewinol ac yn ffurfio trolif oddi ar Ben-caer. Mae ripiau llanwol yn ffurfio oddi ar Ben Anglas, a dyfroedd garw yn ymylu pentir a dŵr bas Llethrau Pen-caer. Llif y llanw yw <2.5 milltir fôr. Amrediad y llanw ar gyfer Abergwaun yw <4.8m.<br><br>Daw rhan orllewinol yr arfordir o dan ACA Tyddewi, mae wedi ei dynodi fel SoDdGA Pen-caer i |

Lechdafad a hefyd wedi ei nodi fel ardal sy'n bwysig a gyfer adar - Clogwyni Sir Benfro. Mae'r cynefinoedd yn cynnwys clogwyni morwrol, glaswelltir, gweundir a glannau creigiog. Mae ynysigau creigiog yn cynnal adar y môr sy'n bridio. Mae'r rhywogaethau pwysig yn cynnwys y morloi llwyd, yr hebog tramor a'r frân goesgoch.

Mae ymylon y clogwyni a chopa'r clogwyni wedi eu gorchuddio gan ros a rhedyn, ac mewn mannau mae'n ymestyn i dros 100m tua'r tir. Mae gan orchudd tir y gefnfro batrwm caeau sydd wedi ei ddiffinio'n dda, yn amrywio o raddfa ganolig i rai caeau llawer yn llai sy'n gysylltiedig â chloddiau aeddfed neu ffiniau cae o waliau cerrig, tra bod brithwaih o laswelltir garw a rhostir ar gopa creigiog y bryniau. Prin iawn yw gorchudd y coed, ac mae wedi ei gyfyngu gan fwyaf at gymoedd bach neu'n gysylltiedig â'r aneddiadau gwledig gwasgarog

**Dylanwad diwylliannol**

Mae'r ardal yn ei chyfanrwydd yn gyfoeth o olion o Gynhanes gan gynnwys siambrau claddu, meini hirion a systemau cau sy'n adlewyrchu ei lleoliad arfordirol a rhyngweladwyedd y traeth, y llechweddau a'r môr. Prin yw'r awgrym o fasnach arfordirol yn y pentir creigiog hwn. Mae'r oleufan hedfan yn dangos cysylltiad gyda mathau eraill o gludiant.

Efallai bod siambr gladdu Garn Gilfach (SAM - PE32) yn un o nifer fwy; ym 1810 nododd Fenton 'sawl Cromlech, rhai wedi eu troi ben i waered, a rhai yn eu safle gwreiddiol' yn yr ardal hon.' Mae Carreg Samson yn siambr gladdu arall i'r dwyrain (SAM – PE031).

Mae'r henebion cofrestredig yn cynnwys:

- PE031 (beddrod siambr Carreg Samson): cymuned: Pen-caer
- PE032 (beddrod siambr Garn Gilfach): cymuned: Pen-caer
- PE033 (beddrod siambr): cymuned: Abergwaun
- PE258 (carreg ag arni farciau croes): cymuned: Pen-caer
- PE350 (caeadle): cymuned: Pen-caer
- PE518 (maen hir): cymuned: Pen-caer

Mae'r ardal hon o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Pen Caer: Garn Fawr a Phen-caer.

Mae yna gysylltiad amlwg rhwng ardal Pen-caer ac ymosodiad aflwyddiannus y Ffrancod ym 1797 yng Ngharregwastad (yr ymosodiad olaf ar brif dir Prydain) pan mae'n debyg i'r milwyr a oedd yn ymosod gael eu dychryn gan filwyr Prydeinig yn eu cotiau coch a oedd mewn gwirionedd yn fenywod Cymreig a oedd yn gwisgo gwisg goch gyffredin y cyfnod. Codwyd y garreg goffa sy'n edrych dros y cildraeth ym 1897. Mae llongddrylliad ar yr arfordir ychydig i'r dwyrain. Mae llongddrylliad arall sy'n gorwedd o dan y dŵr, yr Atlas Rose, ychydig oddi ar y lan.
Mae gan yr artist John Piper gysylltiadau â'r ardal hon, ac yntau wedi byw mewn bwthyn i'r gorllewin ger Garn Fawr. Fe beintiodd yr arfordir a'r môr.

Mae'r anheddau yn wasgarog, ac wedi eu cyfyngu at y pentrefan yn Llanwnda ac ambell glwstwr bach a fferm ac anheddiad ynysig sydd wedi eu cysylltu gan heolydd troellog, cul.

Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys rhwydau wedi eu gosod, dal corgimwch, cimwch a chrancod mewn potiau yn y dyfroedd ar droed y clogwyni a'r posibilrwydd o fân-dreillio estyllod.

Maen nhw'n pysgota oddi ar y creigiau ar Drwyn Crincoed, Carreg Gybi ac oddi ar Ben-caer. Mae yna lwybr hwylio arfordirol i gychod hwyliau sy'n cysylltu Abergwaun at y Aber a phwyntiau tua'r de a hefyd draw at Iwerddon. Mae cychod modur yn hwylio oddi ar y lan hefyd ar hyd yr arfordir.

Mae Pen-caer i'r gorllewin yn un o'r prif leoliadau ar gyfer gwylio dolffiniaid a morfilod eraill ac mae yna ddigwyddiadau 'Gwylio Dolffiniaid' yma'n rheolaidd. Gellir gweld morloi ar hyd yr arfordir hefyd. Mae'n bosib cerdded ar hyd copa'r clogwyni ar hyd Llwybr yr Arfordir hefyd, er, ar y cyfan, prin yw'r bobl sydd i'w gweld ar hyd yr arfordir ac mae mynediad yn anodd, heb unrhyw draethau. Mae yna oleudy ar Ben-caer i'r gorllewin a dyma'r brif gyrchfan ar yr arfordir gyda maes parcio gerllaw. Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol.

## Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol

I raddau helaeth, ffocws yr arfordir garw sy'n wynebu'r gogledd yw golygfeydd mawr o'r môr gyda chymeriad agored a naws cryf am le. Mae gan ymylon y clogwyni ymddangosiad garw ac onglog ac maent wedi eu hindreulio, gyda phatrwm fertigol neu oledd serth a chyfres ailadroddus o faeau a phentiroedd yn torri i mewn i'r graig. Mae cymeriad yr ymyl arfordirol yn weddol gyson o ran cymeriad, ond mae'r dirwedd fewndirol ychydig yn fwy amrywiol gyda chydbwysedd rhwng y gweundir arfordirol a chopaon creigiog y bryniau, yn erbyn y dirwedd fugeiliol gaeedig. Mae'r dyfroedd cysylltiedig yn gallu bod yn arw, gyda thonnau'n taro'r glannau agored yn galed.

Er bod ymdeimlad anghysbell a heddychlon, mae'r gwyntoedd cryfion yn gallu troi'r morlin yn lle gwyllt, agored a bygythiol, yn enwedig mewn gwyntoedd gogleddol. Mae'r coed prin wedi eu siapio gan y gwynt ac yn pwysleisio natur agored yr arfordir, hyd yn oed ar ddiwrnod llonydd prin. Yn gyffredinol, mae yna ddiffyg llygredd golau.

Y prif dirnodau mewn golygfeydd o'r môr yw'r bryniau arfordirol fel Garn Gilfach a goleudy Pen-caer i'r gorllewin. Mae Llwybr yr Arfordir yn cynnig golygfeydd eang o'r môr a chyfleoedd i wylio morloi, a bywyd gwyllt o fath arall. Mae'r rheiny sy'n dringo copa'r clogwyni yn cael golygfeydd panoramig tua'r de yn ogystal â'r gogledd.

## Buddion diwylliannol a gwasanaethau

Mae'r ardal yn cyfrannu at wasanaethau hamdden ar ffurf llefydd anghysbell i gerdded a gwerthfawrogi natur, at dreftadaeth naturiol ar ffurf y morlin garw sydd heb ei ddifetha, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol mewn perthynas â chyfoeth hanesyddol yr ardal.

## Rhesymau dros newid

**Crynodeb**

Erydiad araf clogwyni arfordirol caled. Mae cynllun rheoli'r traethlin yn dweud 'gwneud dim byd'.

Mae erydiad yn effeithio ar gaerau pentir o'r Oes Haearn.

Mae Pen-caer fel atyniad i ymwelwyr yn arwain at dagfeydd a threulio lonydd bach sy'n rhedeg trwy'r ardal ar adegau.

Mae trawsnewid anheddau yn fythynnod gwyliau yn effeithio ar gymeriad gwledig yr anheddiad.

Mae gostwng rheolaeth amaethyddol/pori yn arwain at golli porfa, cynyddu prysg/rhedyn a llai o reolaeth ar gyfer cloddiau, sy'n arwain at newid yn y cymeriad.

Gall caniatáu trwyddedau

**Rhesymau allweddol dros newid**

| **Rhinweddau Arbennig** | Prosesau naturiol/newid hinsawdd | Gwasgedd ymwelwyr | Defnydd morol - masnachol a physgota | Egni ar y môr | Gwasgedd datblygiad | Newidiadau rheoli tir | Defnydd MOD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysblander yr Arfordir | | ■ | ■ | ■ | ■ | | |
| Ynysoedd | | | | | | | |
| Amrywiaeth y Tirlun | | | | | | ■ | |
| Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch | | ■ | ■ | ■ | | | |
| Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth | | | ■ | ■ | | ■ | |
| Archeoleg Gyfoethog | ■ | | | | | | |
| Cymeriad Anheddiad Nodedig | | | | | ■ | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | | | |
| Mynediad i'r Parc | ■ | ■ | | | | ■ | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| olew a nwy arwain at bwysau i ddatblygu yn y dyfodol. | Lle i Anadlu | | | | | | | |
| | **Allwedd** | | Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig | | | | | |

**Sensitifeddau allweddol**

Cymeriad garw, anghysbell a naturiol y morlin, gydag anheddiad gwasgarog.

Cymeriad bugeiliol, gwledig y gefnfro, gyda brigiadau creigiog.

Golygfeydd eang o'r arfordir a chopa'r bryniau.

Lonydd troellog, cul.

Llwybr Arfordir Sir Benfro fel derbynnydd sensitif.

Diffyg llygredd golau, yn gyffredinol, ac eithrio cychod fferi a’r goleudy.

Cychod fferi'n pasio heibio.